

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, 2021

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson and E. Williams

C715 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

C716 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

C717 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C718 ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O'R EGWYDDORION GAMBLO DEDDF 2005 2022-2025 (CYF) –

Roedd yr atgyfeiriad o'r Pwyllgor Trwyddedu Statudol o 21 Medi 2021 wedi'i gyflwyno i'w ystyried fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio wrth gyflwyno'r atgyfeiriad nad oedd adroddiadau ar dueddiadau lleol o ganlyniad i'r pandemig, ac roedd yn synnu nad oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn gamblo o ganlyniad i COVID-19.

Yna

PENDERFYNWYD – BOD Datganiad Egwyddorion Bro Morgannwg ar ei swyddogaethau gamblo ar gyfer y cyfnod 2022-2025 yn cael ei gymeradwyo a'i

No.

gyfeirio'r un fath at y Cyngor Llawn ar 6 Rhagfyr, 2021 i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu.

Y rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol fel awdurdod trwyddedu.

C719 POLISI FFYRDD GWLEDIG (CYF) –

Roedd yr atgyfeiriad gan y Pwyllgor Cyswllt â Chymunedau o 4 Hydref 2021 wedi'i gyflwyno i'w ystyried fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth wrth gyflwyno'r atgyfeiriad, y ddadl eang a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a arweiniodd at y cais i'r Cabinet ystyried sefydlu Polisi Ffyrdd Gwledig penodol ar gyfer ardal Bro Morgannwg, a'i gynnwys yn cael ei lunio ar y cyd â'r holl Gyngorau Tref a Chymuned.

Nid oedd y Cyngorydd King wedi'i argyhoeddi eto o fudd polisi o'r fath y gellid ei ddilyn gan bolisiau pellach ar gyfer Trefi a Chefnffyrdd a fyddai'n seiliedig ar ddyletswyddau statudol a pholisiau a gweithdrefnau presennol y Cyngor a oedd eisoes yn ystyried natur pob ffordd. Ychwanegodd fod Swyddogion Priffyrdd hefyd yn gweithio ar hyn o bryd i gyflawni nifer o bolisiau eraill, yn ogystal â bod dan bwysau sylweddol wrth gwblhau gwaith cefndir tuag at weithredu'r cynllun 20mya a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.

O'r herwydd, credai'r Cyngorydd King fod y polisiau presennol yn ymdrin yn ddigonol â'r mater a gofynnodd i'r Cabinet nodi'r cais i'w ystyried gan Gyngor Cymuned Ewenni.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod llawer o'r materion a drafodwyd yn faterion y gellid eu priodoli i lawer o ffyrdd ym Mro Morgannwg, nid ardaloedd gwledig yn unig, e.e., goryrru, defnyddio ffyrdd amgen i yrru'n gyflymach, ac ati. Pennwyd rhai ffyrdd gwledig â therfynau cyflymder cenedlaethol ac nid oeddent yn fater i'r Cyngor fynd i'r afael â hwynt.

Yna

PENDERFYNWYD – BOD y cais i'w ystyried gan Gyngor Cymuned Ewenni yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau, ei bolisiau a'i weithdrefnau statudol sydd eisoes yn ystyried natur pob ffordd.

C720 STRATEGAETH DDRAFFT HYRWYDDO IAITH GYMRAEG (AG/BA) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –

Mae Safonau'r Gymraeg (safonau 145 a 146) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol:

- lunio a chyhoeddi strategaeth bum mlynedd sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardal;
- cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd
- cynnwys datganiad sy'n esbonio sut mae'r sefydliad yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;
- adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar y wefan o fewn pum mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni);
- ar ôl pum mlynedd, asesu i ba raddau yr oedd y Cyngor wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed yr oedd wedi'i bennu;
- cyhoeddi'r asesiad ar y wefan, gan ddangos nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal, ac oed y siaradwyr hynny
- nodi yn yr asesiad restr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd ganddynt i hybu'r Gymraeg yn ystod y 5 mlynedd blaenorol.

Cyflwynodd yr adroddiad asesiad i'r Cabinet o Strategaeth Hybu 2017-22 a drafft o'r strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2022-27. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y dogfennau hyn er mwyn llywio a chwblhau Strategaeth Hybu 2022-27 ac i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu i weithio tuag at gyflawni ei ymrwymadau.

Roedd yr Arweinydd yn falch fod yr asesiad wedi dod i'r casgliad bod Cyngor Bro Morgannwg yn eglur wedi gwneud cynnydd sylweddol ers 2017 o ran hyrwyddo'r Gymraeg, yn fewnol ac yn gyhoeddus, ac wedi gwneud hynny yn erbyn cefndir o gyni parhaus ac amodau digynsail pandemig COVID 19. Roedd sylfeini cadarn i adeiladu arnynt a byddai llawer o'r targedau a'r camau gweithredu yn parhau yn y Strategaeth newydd. Roedd llawer wedi newid ers 2017 fodd bynnag, ac felly roedd y strategaeth ddrafft yn adlewyrchu'r amgylchiadau presennol ac wedi addasu ei dull gweithredu mewn rhai meysydd.

Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet ystyried a chymeradwyo'r drafft fel sail i ymgynghori arno fel y disgrifir yn yr amserlen ddangosol ym Mharagraff 2.11 o'r adroddiad.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad a'r asesiad o'r strategaeth bresennol (Atodiad A i'r adroddiad) yn cael ei nodi.
- (2) BOD Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft 2022-27 (Atodiad B yr adroddiad) yn cael ei gymeradwyo fel sail ar gyfer ymgynghori fel y disgrifir yn yr adroddiad.
- (3) BOD y dull ymgynghori a'r amserlen fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.
- (4) BOD yr adroddiad a'r atodiadau yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant a'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel rhan o'r rhaglen ymgynghori.
- (5) BOD y Cabinet yn cael adroddiad pellach yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad, fersiwn derfynol ddrafft o strategaeth 2022-27, a chynllun gweithredu cysylltiedig maes o law.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) I'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft (2022-27) gael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghori.
- (3) Sicrhau bod ymgynghori effeithiol yn digwydd o fewn yr amserlenni angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft.
- (4) Sicrhau bod yr holl Bwyllgorau Craffu perthnasol yn cael cyfle i ystyried y Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft a rhoi adborth fel rhan o'r rhaglen ymgynghori.
- (5) Sicrhau y gellir cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddiwygiedig yn unol â'r dyddiad cau statudol a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

C721 CYFRADD LLOG CYFARTALOG LEOL (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Rhaid i Awdurdodau Lleol bennu cyfraddau llog ar forgeisi a drefnir ers 3 Hydref, 1980. Rhaid pennu'r gyfradd hon am bob cyfnod o chwe mis neu'n gynharach os yw'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i awdurdodau godi tâl pa un bynnag oedd yr uchaf o'r gyfradd gyfartalog leol, neu'r Gyfradd Genedlaethol Safonol.

Y gyfradd llog a godir ar forgeisi'r Cyngor ar hyn o bryd yw 4.96%. Cyfrifwyd y gyfradd llog gyfartalog leol ar 4.84%.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

No.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Cyngor Bro Morgannwg yn datgan y gyfradd llog gyfartalog leol o 4.84% o 1 Tachwedd, 2021 ac i leihau llog morgais y Cyngor o 4.96% i 4.84% o 1 Tachwedd, 2021.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau i bennu'r gyfradd pan fydd hwnnw'n newid o lai na 0.2%.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1a2) Sicrhau bod y gyfradd llog yn cael ei hailgyfrifo yn unol â gofynion statudol.

C722 GWASANAETH CYNGHORI YSGOL A CHYMUNEDOL AR GYFER POBL IFANC (DA/AA) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i gynnal ymarfer tendro ac ymrwymo i gontract ar gyfer darparu Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion a'r Gymuned yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi darparu gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion a'r Gymuned ers i Lywodraeth Cymru ryddhau arian (2008) mewn ymateb i adroddiad CLYWCH yn 2004. Roedd y gwasanaeth bob amser wedi cael ei dendro ac wedi darparu gwasanaethau annibynnol, uchel eu canmoliaeth a gwerthfawr i bob person ifanc 11-19 oed yn 8 ysgol uwchradd, ysgol arbennig ac amrywiol leoliadau eraill y Cyngor.

Y llynedd, darparodd y gwasanaeth ymyriad therapiwtig gwerthfawr i dros 180 o bobl ifanc mewn dros 600 o sesiynau. Roedd hyn yn sylweddol is na'r niferoedd cyn-Covid lle'r oedd nifer y bobl ifanc oedd yn defnyddio'r gwasanaeth dros 400 y flwyddyn, a chynhaliwyd dros 2,000 o sesiynau'r flwyddyn. Fel gwasanaeth ataliol, roedd yn lleihau straen a phryder gan arwain at lai o angen i bobl ifanc gael mynediad at wasanaethau lefel uwch.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at ddigwyddiad Llais Disgyblion a gynhaliwyd yn ddiweddar lle'r oedd pobl ifanc yn parhau i bryderu am iechyd meddwl a lles eu cyfoedion.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

No.

(1) BOD y wybodaeth a ddarperir ac effaith gadarnhaol y gwasanaeth ar bobl ifanc ers ei sefydlu yn cael ei nodi a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, i baratoi a chyhoeddi dogfennau tendro er mwyn caffael contract newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cwnsela.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, i dendro am gontract ar gyfer gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion a'r Gymuned a'i ddyfarnu.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, i weithredu contract gyda'r cynigydd llwyddiannus.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Sicrhau bod rheolau sefydlog contractau a rheoliadau ariannol yn cael eu dilyn a bod swyddogion.

C723 STRATEGAETH EIRIOLAETH CAERDYDD A'R FRO (OCI) (CRAFFU - BYW IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Datblygwyd Strategaeth Caerdydd a'r Fro ar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth i Oedolion gan Wasanaethau Oedolion Bro Morgannwg mewn partneriaeth â Gwasanaethau Oedolion Caerdydd a Rhwydwaith Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro. Roedd y strategaeth yn nodi sut y cafodd unrhyw un sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion yn y rhanbarth ei gynnwys yn llawn ym mhob penderfyniad ac yn gallu cymryd rhan lawn yn y prosesau asesu a chynllunio gofal fel partneriaid cyfartal.

Byddai'r Strategaeth yn sail i berthynas contractiol newydd â darparwyr Eiriolaeth ar draws y rhanbarth drwy:

- Fabwysiadu dull cydgynhyrchiol systemig gyda'r holl randdeiliaid;
- Ffurio perthynas bwrpasol, gydweithredol rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechedd a darparwyr;
- Rhannu dealltwriaeth gyffredin o beth yw eiriolaeth a rôl benodol eiriolaeth annibynnol; a
- Cytuno ar y cyd ynghylch pryd y mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn briodol, gan ystyried bob amser ei hygyrchedd a'i chymhwysiad ochr yn ochr â mathau eraill o eiriolaeth.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet wrth gyfeirio at yr adroddiad ei fod yn cael ei gydnabod bod angen clywed pob llais a diwallu pob angen. Rhoddwyd Cynnig ychwanegol gerbron i gyfeirio Strategaeth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro at y Pwyllgor Craffu ar Fyw'n lach a Gofal Cymdeithasol er gwybodaeth, a chytunwyd arno er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

No.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a bod cyhoeddi Strategaeth Caerdydd a'r Fro ar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth i Oedolion yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, i oruchwylio trefniadau rhanbarthol ar gyfer caffael contractau newydd ar gyfer darparu Eiriolaeth Oedolion ar draws y rhanbarth, y bydd Cyngor Caerdydd yn arwain arno.
- (3) BOD ail-gomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth i Oedolion yn cael ei arwain gan Gyngor Caerdydd ar ran y rhanbarth, yn cael ei gymeradwyo.
- (4) BOD Strategaeth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro yn cael ei chyfeirio at y Pwyllgor Craffu ar Fyw'n Iach a Gofal Cymdeithasol er gwybodaeth.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Cabinet yn cael ei ddiweddarau ar y nodau a'r uchelgeisiau ar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth i gefnogi dinasyddion i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth eu hunain.
- (2) Sicrhau bod y broses ar gyfer symud ymlaen ar gaffael contractau Eiriolaeth Oedolion newydd yn cael ei chynnal yn effeithlon ac yn effeithiol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.
- (3) Sicrhau goruchwyliaeth ar ail-gomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth i Oedolion gan Gyngor Caerdydd ar ran Bro Morgannwg.
- (4) Rhoi Strategaeth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Fyw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.

C724 CYLLID ALLANOL – TEULUOEDD YN GYNTAF (OCI) (CRAFFU - BYW IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymarfer caffael ar gyfer darparu nifer o wasanaethau ymyrraeth gynnar a chymorth.

Roedd y Cabinet hefyd yn ymwybodol bod nifer o'r prosiectau wedi'u darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet wrth gyfeirio at yr adroddiad at faint o waith a gwblhawyd o dan faner Teuluoedd yn Gyntaf, yn benodol y saith prosiect penodol

No.

a fodolai o dan y Cynllun Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2020-21 fel y disgrifir ym mharagraff 1.4 o'r adroddiad.

Byddai'r prosiectau pwysig hynny'n parhau, ond disgrifiodd paragraff 2.3 o'r adroddiad hefyd sut y byddai cyllid ychwanegol yn caniatáu ehangu ymhellach ar brosiectau ychwanegol.

Talodd y Cynghorydd Gray deyrnged hefyd i'r staff hynny a oedd wedi darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig ac wedi cefnogi'r teuluoedd hynny oedd angen mynediad at y gwasanaethau hynny. Roedd timau traws-bortffolio y tu allan i'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Dysgu a Diwylliant, Hamdden ac ati a oedd hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth i gefnogi teuluoedd lle bo angen.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a bod y defnydd o'r grant Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gefnogi.
- (2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd, i drafod a gweithredu trefniadau cytundebol priodol gyda phartneriaid cyflenwi, gan gynnwys lle'r oedd angen ail-dendro, er mwyn sicrhau bod Cynllun Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddarparu fel y disgrifir ym mharagraffau 2.2 a 2.3 o'r adroddiad.
- (3) BOD Swyddogion ar draws pob Cyfarwyddiaeth yn derbyn diolch am y gwaith a wnaed yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gydol y pandemig.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o sut yr oedd y grant yn cael ei ddefnyddio i ddarparu Teuluoedd yn Gyntaf ym Mro Morgannwg, ac yn ei gefnogi.
- (2) Cael awdurdod y Cabinet i ymrwymo i drefniadau cytundebol priodol gyda phartneriaid cyflenwi i barhau â'r Cynllun Teuluoedd yn Gyntaf.
- (3) Dangos gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan Swyddogion i gynnal gwasanaethau.